# ATODIADAU I GYLCH GORCHWYL Y COMISIWN I FRWYDRO YN ERBYN EITHAFIAETH

**Cyhoeddwyd: 20 Medi 2018**


| | |
|---|---|
| ATODIAD A | Crynodeb Ymgysylltu |
| ATODIAD B | Data Tryloywder |
| ATODIAD C | Data Polau Piniwn |
| ATODIAD D | Adolygiad o Lenyddiaeth |

# Atodiad A: Crynodeb Ymgysylltu

Cyhoeddodd Sara Khan bod ymgysylltu yn eang yn flaenoriaeth ganddi o'r diwrnod y'i penodwyd. Mae'r ymrwymiad hwn i ymgysylltu wedi bod yn sail i waith y Comisiwn dros y chwe mis diwethaf, o gasglu tystiolaeth ar gyfer ei astudiaeth i lunio comisiwn cadarn, awdurdodol ac annibynnol a dechrau adeiladu rhwydwaith o rai sy'n brwydro yn erbyn eithafiaeth.

Cyfarfu'r Comisiwn â dros 300 o arbenigwyr a gweithredwyr mewn trefi a dinasoedd ar hyd a lled y wlad. Mae'r ddogfen hon yn cynnig crynodeb o'r ymgysylltu, a gellir gweld manylion pwy yr ydym wedi eu cyfarfod yn Atodiad B. Yn bennaf oll byddai'r Comisiwn yn hoffi diolch i bawb sydd wedi rhoi eu hamser i gyfrannu at ein gwaith.

# Ymweliadau ag Ardaloedd sy'n Taclo Eithafiaeth

Teithiodd Sara ledled y wlad i gyfarfod pobl mewn nifer o ranbarthau sy'n wynebu eithafiaeth, i gael safbwynt lleol am brofiadau pobl o eithafiaeth.

Ymwelodd â Dwyrain, Gorllewin a De Llundain, Portsmouth, Bradford, Manceinion, Birmingham, Leeds, Luton, Newcastle, Lerpwl a Middlesbrough.

Roedd pob ymweliad yn cynnwys cyfarfod gyda chyrff statudol, fel y cyngor a'r heddlu. Nhw sy'n clywed gyntaf, yn aml, am bryderon am eithafiaeth, ac fel arfer nhw sydd ar y rheng flaen wrth eu taclo.

Cyfarfu Sara hefyd â grwpiau ac unigolion sy'n brwydro yn erbyn eithafiaeth yn weithredol a'r rhai sy'n gweithio gyda phobl y gall eithafiaeth effeithio arnynt, fel ffoaduriaid, menywod a grwpiau pobl ifanc.

Daeth nifer o themâu cyffredin i'r golwg o'r cyfarfodydd a'r ymweliadau.

## Pryder am eithafiaeth

Er nad yw pawb yn defnyddio'r 'E-air' mae'n drawiadol bod unigolion o Newcastle i Portsmouth wedi disgrifio digwyddiadau a niweidiau yn cael eu gyrru gan eithafiaeth y maent wedi eu profi.

Thema gyffredin oedd amlygrwydd cynyddol naratifau a grwpiau o'r Dde Eithaf, yn manteisio ar densiynau lleol – gan ymwneud â cheiswyr lloches neu achosion cam-fanteisio rhywiol weithiau – i wasgaru casineb gwrth-Fwslimaidd, dan gochl iaith hawliau dynol a rhyddid i lefaru weithiau.

Disgrifiodd gweithwyr mewn canolfan i ffoaduriaid yn y Gogledd Ddwyrain ofnau unigolion bregus yr oeddynt yn gweithio gyda nhw a deimlai eu bod yn cael eu targedu gan y dde eithaf a'u defnyddio fel bwch dihangol a sut y byddent yn rhybuddio ei gilydd i beidio â mynd allan ar y stryd yn dilyn gorymdeithiau'r Dde Eithaf. Mynegodd grŵp o fenywod o amrywiaeth o gefndiroedd BAME ofnau o ran trais a sarhad gan eithafwyr o'r Dde Eithaf. Rhannodd arweinwyr cynghorau wybodaeth am yr ymyrraeth y mae gorymdeithiau yn ei achosi i'w hardal leol ac i fywydau preswylwyr.

Ofn oedd yn cael ei rannu ar draws y wlad oedd y gallai pobl ifanc fod yn agored i'r negeseuon cynhennus, hiliol ac eithafol ar y cyfryngau cymdeithasol. Rhannodd arbenigwyr eu pryderon am y Dde Eithaf – ac yn arbennig yr angen i ddeall yr hyn a alwodd un arbenigwr yn 'frid newydd' o eithafwyr y Dde Eithaf, rôl ddylanwadol cyfryngau cymdeithasol a'r deinamig rhwng gweithredwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yng nghyswllt ariannu a rhannu negeseuon eithafol.

Soniwyd am eithafiaeth Islamaidd ar draws ardaloedd lleol hefyd. Ond roedd yr awdurdodau a'r grwpiau y buom yn siarad â nhw yn llai hyderus wrth drafod y materion hyn, yn rhannol oherwydd diffyg dealltwriaeth o eithafiaeth Islamaidd a'i syniadaeth. Mewn enghreifftiau eraill, pan oedd arweinwyr lleol, gan gynnwys cynghorwyr etholedig, yn herio siaradwyr sy'n eithafwyr Islamaidd, roeddent yn cael eu cyhuddo o hiliaeth ac Islamaffobia.

Dywedodd cymunedau wrthym am eu pryderon am eithafiaeth a sectyddiaeth yn cael eu hyrwyddo tu ôl i ddrysau caeedig. Mewn un mosg mewn dinas, roedd cof bach â chynnwys eithafol yn cael ei adael yn esgidiau'r addolwyr. Soniodd eraill am grwpiau Islamaidd eithafol yn cynyddu'r graddau y mae Mwslimiaid ifanc yn teimlo eu bod wedi eu hynysu a'u diffyg ymddiriedaeth mewn sefydliadau democrataidd. Rhannodd menywod Mwslimaidd eu profiadau o gael eu bygwth a'u bwlio gan grwpiau Islamaidd.

Disgrifiodd nifer o arbenigwyr yr angen i archwilio pob ffurf ar eithafiaeth a'r ffordd y gallant ryngweithio, er enghraifft yn y ffordd y mae eithafiaeth y Dde Eithaf ac Islamaidd yn gwaethygu ei gilydd, a elwir yn aml yn radicaleiddio dwyochrog neu gronnol. Mae arweinwyr ffydd, yn arbennig, yn wynebu nifer o sialensiau. Maent yn ymdopi ag eithafwyr o'r Dde Eithaf yn targedu eu mannau addoli ond hefyd bodolaeth eithafwyr crefyddol o fewn eu cymunedau yn camddefnyddio athrawiaeth eu ffydd i hybu casineb a hyd yn oed drais.

Codwyd pryderon hefyd am effaith ffurfiau eraill ar eithafiaeth, fel eithafiaeth Hindŵaidd, eithafiaeth Sikh ac eithafiaeth y Chwith Eithaf. Roedd y disgrifiadau o'r holl ffurfiau yma ar eithafiaeth yn awgrymu eu bod yn rhannu llawer o'r nodweddion, fel ceisio cyfyngu ar ryddid pobl i gredu a dweud yr hyn a ddymunant, a throi at yr un tactegau wrth aflonyddu a sarhau.

### Herio eithafiaeth yn llwyddiannus

Ar bob ymweliad fe wnaethom gyfarfod unigolion oedd yn ysbrydoli a grwpiau oedd naill ai yn herio eithafwyr yn weithredol neu'r rhai sy'n gweithio gyda'r rhai sy'n ceisio lliniaru niweidiau eithafiaeth.

Ond roedd yn glir hefyd bod llawer o weithredwyr yn derbyn swm sylweddol a chyson o sarhad ar-lein a heb fod ar-lein, a bod arnynt angen cefnogaeth rhwydwaith ehangach. Mae grwpiau cymunedol yn gweithio yn anhygoel o galed ond heb fawr o gydnabyddiaeth a chyllid ansefydlog.

Fel yr esboniodd arbenigwyr a gweithredwyr, pobl ifanc, efallai, sydd fwyaf agored i negeseuon eithafol, ond hwy hefyd all fod yn amddiffynwyr mwyaf llafar i'r mathau gwahanol o hawliau y mae eithafwyr yn eu bygwth. Gwelsom brosiectau oedd yn ysbrydoli ar draws y wlad - yn Leeds (Catch), Portsmouth (Music Fusion), a Birmingham (The Feast) – lle mae pobl ifanc, ar eu telerau eu hunain, yn cael y lle, yr her a'r gefnogaeth i fwynhau herio syniadau ac amrywiaeth.

Er bod llawer o arbenigwyr a gweithredwyr yn ansicr sut yr oedd yr ymadrodd 'Gwerthoedd Prydeinig' yn ffitio yn eu gwaith, roedd trefi a dinasoedd yn hyderus wrth ddefnyddio ymdeimlad o falchder lleol ac ymrwymiad i amrywiaeth fel gwrthgyffur i eithafiaeth.

Gwnaeth y ffaith bod cynghorau yn rhannu ymatebion blaengar ac arfer gorau trwy'r Gymdeithas Llywodraeth Leol a'r Grŵp Diddordeb Arbennig ar Frwydro yn Erbyn Eithafiaeth argraff arnom. Dro ar ôl tro gwelwyd gwerth y Cydlynwyr Cymunedol a ariennir gan y Swyddfa Gartref. Gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol, gall grwpiau gael mynediad at gymysgedd o gyllid lleol, ymddiriedolaethau a'r wladwriaeth – gan gynnwys y cyllid Adeiladu Prydain Gryfach Gyda'n Gilydd y mae'r Swyddfa Gartref yn ei dargedu at y grwpiau sy'n brwydro yn erbyn eithafiaeth.

### Trafod eithafiaeth

Yn olaf, er bod y rhai sydd wedi profi eithafiaeth yn gallu disgrifio ei effaith, i lawer mae eithafiaeth, ac yn arbennig felly eithafiaeth ar sail crefydd, yn anhygoel o anodd siarad amdano. Teimla pobl bod y drafodaeth yn cael ei thra-arglwyddiaethu gan leisiau uchel, blin sy'n mynnu mynd i'r pegynau eithaf. Adleisiwyd y neges hon gan yr arbenigwyr a'r gweithredwyr y gwnaethom eu cyfarfod.

## Gweithdai a Chylchoedd Trafod

Yn ychwanegol mae'r Comisiwn wedi cynnal nifer o weithdai yn ei chwe mis cyntaf, gan gyfrannu at y cwestiynau a osodwyd yn y Cylch Gorchwyl.

### Cylch Trafod RUSI

Hwn oedd cyfarfod cyntaf y Comisiwn gydag amrywiaeth eang o arbenigwyr. Ystyriodd y rhai oedd yn cymryd rhan yn y cylch trafod eu syniadau cynnar am eu gweledigaeth ar gyfer gwaith y Comisiwn gan gynnwys y dull i'w ddefnyddio ar gyfer yr astudiaeth arfaethedig o eithafiaeth. Roeddent yn cytuno bod ar eithafiaeth angen ymateb gan y gymdeithas gyfan, gan adeiladu ar y gwaith da a wnaed yn barod. Er mwyn taclo eithafiaeth rhaid i'r syniadaeth greiddiol tu ôl iddo gael ei drin ar bob lefel. Cymysg oedd y farn am werth y diffiniad o eithafiaeth – roedd rhai yn meddwl bod y diffyg diffiniad yn cyfyngu ar yr ymateb iddo; teimlai eraill nad yw'n bosibl diffinio eithafiaeth yn foddhaol. Roedd y rhai a gymerodd ran yn cytuno am bwysigrwydd deall y ffactorau sy'n sail i eithafiaeth, gan ymgysylltu yn eang, ac ar rymuso'r rhwydwaith o bobl sy'n gweithio i frwydro yn erbyn eithafiaeth.

### Gweithdai Hawliau Dynol/Rhyddid i Lefaru, Crefydd a Chred

Ar draws dau weithdy gyda grwpiau hawliau dynol a rhyddid i fynegi barn a chrefydd/cred, gan gynnwys aelodau o'r gyngres Defend Free Speech, trafodwyd yr effaith niweidiol y mae eithafiaeth yn ei gael ar hawliau dynol, ond hefyd oblygiadau posibl gwaith gwrth-eithafiaeth ar ryddid mynegiant. Ar y cyd cydnabuwyd y sialensiau y mae eithafwyr yn eu codi i ni, a'r angen i ymgysylltu â'r agenda hon, o ystyried bod eithafwyr yn gwrthwynebu hawliau dynol yn gyson. Pwysleisiwyd pwysigrwydd gweld y Comisiwn yn cymryd rhan mewn sgyrsiau agored, positif a'r angen am her fwy cadarn i safbwyntiau eithafol. Roeddent yn barod i ymgysylltu â'r comisiwn yn y dyfodol.

## Ymarferwyr, Cymdeithas Sifil ac Academyddion

Daeth ymarferwyr polisi gwrth-eithafiaeth, academyddion a grwpiau cymdeithas sifil o hyd i themâu allweddol yn eu dealltwriaeth o eithafiaeth gan gynnwys mynd yn groes i hawliau dynol, gwrthwynebu democratiaeth a golwg gynyddol gynhennus o'r byd sy'n defnyddio ofn a dicter i ddad-ddyneiddio eraill.

Trafododd y rhai oedd yn bresennol yr angen i greu cyfathrebiadau cadarnhaol am wrth-eithafiaeth trwy negeseuon cyhoeddus mwy effeithiol, yr angen i sefydlu mwy o rannu gwybodaeth o fewn y llywodraeth a rhwng y llywodraeth a grwpiau cymdeithas sifil. Mynegodd yr ymarferwyr ddymuniad am ragor o gyfarwyddyd ar sut y gellir amharu ar eithafwyr. Esboniodd grwpiau o gymdeithas sifil, trwy ymgysylltu ag eithafwyr a brwydro yn eu herbyn, eu bod yn aml yn gweithio mewn hinsawdd o gasineb, bygythiadau a sarhad. Mynegwyd eu hangen am fwy o gefnogaeth ac arweiniad. Roedd pwyslais y gweithdy ar roi blaenoriaeth i fylchau yn y dystiolaeth i'r astudiaeth eu llenwi. Roedd y rhai y cytunwyd arnynt yn cynnwys deall sut y gall bod yn agored i ddeunydd ar-lein ddylanwadu ar ymddygiad unigolyn; deall y gwahanol fathau o eithafiaeth a'r bygythiadau y maent yn eu creu a'r niweidiau y mae gwahanol rwydweithiau eithafol yn eu hachosi.

## Swyddogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig

Trafododd gweision sifil sy'n ymdrin â materion anoddefgarwch ac eithafiaeth yn eu gwaith y bylchau yn y dystiolaeth am eithafiaeth a'u rhoi yn nhrefn blaenoriaeth. Cynrychiolwyd adrannau gan gynnwys y Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, yr Adran Addysg, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Heddlu. Teimlai'r grŵp ei bod yn hanfodol deall yr amrywiaeth o niweidiau a achosir gan eithafiaeth a'u graddfa yn well, fel y niwed i gydlyniad cymunedol, pobl ifanc a menywod, a'r niweidiau a achosir ar-lein. Roedd arbenigwyr yn awyddus iawn i ddeall sut y mae mudiadau eithafol yn dod yn gredadwy, eu tactegau a'u hamcanion yn ogystal â pha rai o'r ymatebion sydd ar gael i eithafiaeth sydd fwyaf effeithiol.

## Swyddogion Llywodraeth Cymru

Trafododd swyddogion o Gymru o feysydd Trosedd a Chyfiawnder, Diogelu, Cydraddoldeb, Trais yn Erbyn Menywod a Diogelwch Cymunedol y tirlun eithafiaeth yng nghyswllt Cymru. Roedd y rhai oedd yn bresennol yn croesawu'r cyfle i ymgysylltu yn y dyfodol i ddynodi pa gymunedau y mae eithafiaeth yn effeithio mwyaf arnynt a sut y gall ymyrraeth gynnar fod yn gam i'w atal gan ddechrau yn ystod addysg y blynyddoedd cynnar. Roedd y grŵp hefyd yn awyddus i weld cyfathrebiadau yn cael eu cyhoeddi yn y Gymraeg i sicrhau dull cynhwysol ac amrywiol o frwydro yn erbyn eithafiaeth.

## Grŵp Arbenigol

Trafododd y Grŵp Arbenigol sefydlu'r Comisiwn a statws ei argymhellion pan fydd yr astudiaeth yn gyflawn. Teimlent fod consensws cyhoeddus cadarn yn erbyn eithafiaeth ar goll, ac y bydd angen ymgysylltu rhagor yn uniongyrchol â'r cyhoedd i osod y sylfeini ar gyfer un. Ond, mae trafodaeth o'r fath yn anodd, yn arbennig o ran Islamiaeth. Gall enghreifftiau o eithafiaeth helpu i gynyddu dealltwriaeth, barn eithafwyr am rywedd, er enghraifft, sy'n dueddol o gael effaith negyddol ar fenywod.

Trafododd yr aelodau ddiffyg tystiolaeth am eithafiaeth, yn arbennig o ran sut y mae'r cyd-destun ehangach yn effeithio arno, fel trafodaethau cyhoeddus ar gyfryngau cymdeithasol neu raddfa mewnfudo. Rhaid deall effaith eithafiaeth ar grwpiau bregus yn well fel y rhai sydd ag iechyd meddyliol gwael yn ogystal â'r cysylltiadau rhwng agweddau rhywun a'i ymddygiad.

# Atodiad B: Data Tryloywder

## Ymgysylltu gan Sara Khan, Comisiynydd Arweiniol dros Frwydro yn Erbyn Eithafiaeth hyd Awst 2018

Mae'r Comisiynydd Arweiniol dros Frwydro yn Erbyn Eithafiaeth wedi ymgysylltu yn eang, a byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r cyfarfodydd y mae wedi eu cynnal bob tua chwe mis.  Mae'r rhestr isod yn cynnwys cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng Chwefror ac Awst 2018.

Er mwyn parchu gofynion diogelu data rhestrir enwau sefydliadau yn hytrach nag enwau unigolion ac eithrio yn achos gwleidyddion. Yn ychwanegol, mae'r Comisiynydd Arweiniol hefyd yn cyfarfod dioddefwyr eithafiaeth, pobl ifanc, ac unigolion eraill heb gysylltiad â sefydliad.

Mae'r ymgysylltu a wna'r Comisiynydd yn cynnwys cyfarfodydd un i un, gweithdai, cynadleddau a thrafodaethau grŵp yn ystod ymweliadau ar draws y wlad.

### Llywodraeth ganolog a rheoleiddwyr

- Comisiynydd Dioddefwyr
- Gwasanaeth Carchardai EM
- IMPRESS
- Ofcom
- Ofsted
- Pencadlys Cyfathrebu'r Llywodraeth
- Swyddfa'r Cabinet
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Y Comisiwn Elusennau
- Y Gwasanaeth Diogelwch - MI5
- Yr Adran Addysg
- Yr Adran Datblygu Rhyngwladol
- Yr Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad
- Y Swyddfa Gartref
- Y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

### Sector cyhoeddus arall

- Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf
- Cymdeithas Llywodraeth Leol
- Cyngor Bradford
- Cyngor Bwrdeistref Luton
- Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu
- Cyngor Dinas Birmingham
- Cyngor Dinas Caerlŷr
- Cyngor Dinas Lerpwl
- Cyngor Dinas Newcastle
- Cyngor Dinas Portsmouth
- Cyngor Hackney
- Cyngor Lambeth
- Cyngor Manceinion
- Cyngor Middlesbrough
- Heddlu Glannau Mersi
- Heddlu Gorllewin Swydd Efrog
- Heddlu Metropolitan
- Heddlu Northumbria
- National Citizen Service
- Preventing Hateful Extremism and Promoting Social Cohesion Commission, Manceinion
- Swyddfa'r Maer dros Blismona a Throseddu, Llundain
- Ysgol Elizabeth Garrett Anderson

### Gwleidyddion

- Afzal Khan AS
- Arglwydd Esgob Leeds
- Khalid Mahmood AS
- Philip Lee AS (fel Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder)
- Sam Gyimah AS
- Y Farwnes Nicholson
- Y Farwnes Warsi
- Y Farwnes Williams
- Y Gwir Anrhydeddus Anna Soubry AS
- Y Gwir Anrhydeddus David Lammy AS
- Y Gwir Anrhydeddus Diane Abbott AS
- Y Gwir Anrhydeddus Dominic Grieve QC AS
- Y Gwir Anrhydeddus Matthew Hancock AS (fel Ysgrifennydd Gwladol, yr Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon)
- Y Gwir Anrhydeddus Sajid Javid AS (fel Ysgrifennydd Cartref ac Ysgrifennydd Gwladol Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol)
- Yr Arglwydd Agnew o Oulton
- Yr Arglwydd Ahmad o Wimbledon
- Yr Arglwydd Anderson o Ipswich

- Yr Arglwydd Carlile o Aberriw QC
- Y Cynghorydd Anita Lower, Newcastle
- Y Cynghorydd Deborah Coupar, Leeds
- Y Cynghorydd Habib Rahman, Cyngor Dinas Newcastle
- Y Cynghorydd Hazell Simmons, Luton
- Y Cynghorydd Kirk Master, Caerlŷr
- Y Cynghorydd Manjula Sood, Caerlŷr
- Y Cynghorydd Mick Thompson, Middlesbrough
- Y Cynghorydd Mohammed Aslam Khan, Luton
- Y Cynghorydd Mohammed Seedat - Cyngor Lambeth
- Y Cynghorydd Mustafa Malik, Caerlŷr
- Y Cynghorydd Naseem Ayub, Luton
- Y Cynghorydd Sarah Russell, Caerlŷr
- Y Cynghorydd Simon Blackburn, Cyngor Blackpool
- Y Cynghorydd Sue Murphy, Manceinion

## Cymdeithas sifil

- Academy of Ideas
- Ahmadiyya Muslim Community UK
- Al Hilal, Manceinion
- Allied Network, Birmingham
- Amnesty Rhyngwladol
- Angelou Centre, Newcastle
- Article 19
- Balsall Heath Young Women, Birmingham
- Bangla Bantams, Bradford
- Bangladeshi Youth Organisation, Bradford
- Barnardo's
- Baytree Centre, Lambeth
- Big Brother Watch
- Birmingham Council of Mosques
- Birmingham Progressive Synagogue
- Board of Deputies of British Jews
- Bradford City Community Foundation
- Bradford Hate Crime Alliance
- Bradford Reform Synagogue
- British Future
- British Rohingya Community
- Building Futures East, Newcastle
- Campaign Against Antisemitism
- Care for Women and Girls, Birmingham
- Centre for Secular Space
- City Sikhs UK
- Clifton Road Mosque, Birmingham
- Community Action to Change Harehills, Leeds
- Community Security Trust
- Eglwys Lloegr
- English PEN
- EPIC Teesside CIC / Primrose Hill Community Partnership, Middlesbrough
- Faiths Forum for London
- Faith Matters
- Faith to Faithless
- Families Against Violence, Manceinion
- Football for Peace, Manceinion
- Forum for Peace in Muslim Societies
- Freedom Association
- GoldHill Play Association, Leicester
- Hamaya Haven, Birmingham
- Hindu Council of Birmingham
- Hobmoor Community Centre, Birmingham
- HOPE Not Hate
- Humanists UK
- Index on Censorship
- I4GiveH8, Manceinion
- Investing in People and Culture, Middlesbrough
- Investors in People and Culture, Caerlŷr
- Jami Mosque, Portsmouth
- Jo Cox Foundation
- Justice First, Middlesbrough
- JW3 Community Centre
- Karma Nirvana, Leeds
- Leicester Peace Foundation
- Leicester Women's Forum
- Linx Youth Project, Middlesbrough
- Marcus Lipton Community Enterprise, Lambeth
- Me & You Education
- Merseyside Inter Faith Forum

- Middlesbrough Environment City
- Middlesbrough Environment Town
- Middlesbrough Football Club Community Foundation
- Middlesbrough Voluntary Development Agency
- Music Fusion, Portsmouth
- National Secular Society
- NEESIE, Bradford
- New Horizons in British Islam
- Nishkam Centre, Birmingham
- Nisa Nashim, Manceinion
- North Manchester Sisters
- ODARA, Birmingham
- Open Cultures, Manceinion
- Pakistan Youth and Community Association,
- Peter Tatchell Foundation
- Poplar HARCA, Tower Hamlets
- Rethink Rebuild, Manceinion
- Reporters Without Borders
- Riverside Community Health Project, Newcastle
- Saathi House (Aston), Birmingham
- Sampson Hall
- Shama Womens Centre, Caerlŷr
- Sikh Women's Action Network, Birmingham
- Sikh Women's Action Network, Leeds
- Singh Gurdwara School, Bradford
- Smart Women, Birmingham
- Smile Aid, Manceinion
- Somali Development Services, Caerlŷr
- Southall Black Sisters
- St Barnabas & St Martin's Churches, Heaton Bradford
- St Peters Church, Birmingham
- St Philips Centre, Caerlŷr
- Streets Ahead, Middlesbrough
- Street Vibe, Caerlŷr
- Takeover Radio, Caerlŷr
- Talk Radio, Manceinion
- TellMAMA
- The Christian Institute
- The Feast, Birmingham
- The Halo Project, Middlesbrough
- The Spearhead Trust, Birmingham
- The Tony Blair Institute for Global Change
- Tyne and Wear Anti-Fascist Association, North East, Newcastle
- Unbound Philanthropy
- Unitas Communications Ltd
- West End Women and Girls, Newcastle
- Women Acting in Today's Society, Birmingham
- Women Against Radicalisation Network, Birmingham
- Young Lambeth Co-op

## Academyddion, arbenigwyr a seiadau syniadau

- Civitas: Y Sefydliad Astudio Cymdeithas Sifil
- Demos
- European Eye on Radicalization
- Henry Jackson Society
- iCoCo foundation
- Institute for Strategic Dialogue
- London School of Economics
- Policy Exchange
- Prifysgol Birmingham
- Prifysgol Bradford
- Prifysgol Bryste
- Prifysgol Caerhirfryn
- Prifysgol Caerlŷr
- Prifysgol Coventry
- Prifysgol Essex
- Prifysgol Leeds
- Prifysgol Manceinion
- Quilliam
- Reform
- Resolution Foundation
- ResPublica
- Royal United Service Institute
- Woolf Institute
- Y Ganolfan Astudiaethau Shi'a Academaidd
- Y Ganolfan Bolisi Fyd-eang
- Y Ganolfan i Ddadansoddi'r Dde Radicalaidd
- Ymgynghoriaeth, Hyfforddiant, Ymchwil ac Ymyraethau Gwrth-eithafiaeth

### Rhyngwladol

- Center for Global Policy
- Georgetown Law
- Gweinyddiaeth Fewnol a Chysylltiadau'r Frenhiniaeth, Yr Iseldiroedd
- Prifysgol Americanaidd
- Swyddfa Uchel Gomisiwn y Cenhedloedd Unedig dros Hawliau Dynol
- The Soufan Center
- Y Cyngor Ewropeaidd
- Yr Adran Faterion Cartref, Awstralia
- Y Swyddfa Sefydliadau Democrataidd a Hawliau Dynol

### Unigolion heb gysylltiad â sefydliad gan gynnwys dioddefwyr eithafiaeth a phobl ifanc

Er mwyn parchu gofynion diogelu data nid yw enwau unigolion wedi eu cynnwys.

# Atodiad C: Data Polau Piniwn

Cynhaliodd YouGov arolwg dros y Comisiwn gan ddefnyddio cyfweliad ar-lein a roddwyd i 1495 o aelodau o banel YouGov Plc ym Mhrydain sy'n cynnwys 800,000+ o unigolion sydd wedi cytuno i gymryd rhan mewn arolygon. Anfonwyd neges e-bost at banelwyr a ddewiswyd ar hap o'r sampl sylfaenol yn ôl diffiniad y sampl, gan eu gwahodd i gymryd rhan yn yr arolwg a rhoi dolen i'r arolwg iddynt.[1]

Mae'r mwyafrif clir o'r cyhoedd yn ymddangos fel pe baent yn adnabod eithafiaeth pan fyddant yn ei weld ac yn bryderus am y cynnydd mewn eithafiaeth.


Ond, mae gwahaniaethau arwyddocaol, yn ôl oedran a safbwynt gwleidyddol yn arbennig, o ran sut y mae'r cyhoedd yn ystyried rhai agweddau ar eithafiaeth, ac o ran pa mor berthnasol y maent yn ystyried y mae geiriau, ymadroddion a chysyniadau penodol iddo.

Er bod y cyhoedd yn fwyaf tebygol o gysylltu eithafiaeth â "therfysgaeth" neu "drais", mae cyfran sylweddol yn ei gysylltu â "chasineb" hefyd. Mae'r cyhoedd yn fwy tebygol o amgyffred eithafiaeth fel rhywbeth niweidiol i "ddiogelwch cenedlaethol", "goddefgarwch", "gwerthoedd Prydeinig" a "rhyddid crefyddol" neu "gred".

Mae tri chwarter y cyhoedd yn bryderus am y cynnydd mewn eithafiaeth yn y Deyrnas Unedig, a chyfyngedig yw'r amrywiad yn ôl rhyw (menywod yn fwy pryderus na dynion) ac amrywiad sylweddol yn ôl oedran (grwpiau hŷn yn fwy pryderus na grwpiau iau)

Mae mwy na hanner y cyhoedd yn hyderus eu bod yn deall sut y mae eithafiaeth yn edrych yn y Deyrnas Unedig, nid yw traean yn hyderus - mae amrywiad bychan yn ôl rhyw.

Cred tri chwarter y dylid gwneud mwy i daclo eithafiaeth yn y Deyrnas Unedig gydag ychydig iawn o amrywiad yn ôl daearyddiaeth ac amrywiad arwyddocaol yn ôl oedran. Roedd y rhai 18-24 oed a holwyd yn fwy tebygol o gysylltu eithafiaeth â "gwahaniaethu" na grwpiau hŷn ac yn llai tebygol o'i gysylltu ag "anoddefgarwch".




C: Pa un o'r geiriau canlynol fyddech chi'n ei gysylltu agosaf ag eithafiaeth?
Dewiswch hyd at dri dewis os gwelwch yn dda (yn ôl grŵp oedran)

1. Mae'r holl ffigyrau, oni nodir yn wahanol, gan YouGov Plc. Cyfanswm maint y sampl oedd 1,495 o oedolion. Gwnaed y gwaith maes rhwng 20 a 21 Mehefin 2018. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigyrau wedi eu pwysoli ac maent yn cynrychioli holl oedolion Prydain (18 oed a hŷn).

| | Cyfanswm | Rhyw: Gwryw | Rhyw: Benyw | Oedran: 18-24 | Oedran: 25-49 | Oedran: 50-64 | Oedran: 65+ | Rhanbarth: Llundain | Rhanbarth: Gweddill De Lloegr | Rhanbarth: Canolbarth Lloegr / Cymru | Rhanbarth: Gogledd Lloegr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sampl Wedi'i Bwysoli | 1495 | 725 | 770 | 166 | 627 | 354 | 349 | 219 | 531 | 351 | 395 |
| Sampl Heb ei Bwysoli | 1486 | 650 | 836 | 140 | 621 | 376 | 349 | 169 | 560 | 353 | 404 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| **Pa mor bryderus ydych chi am y lefel gynyddol o eithafiaeth yn y Deyrnas Unedig?** | | | | | | | | | | | |
| Pryderus iawn | 29 | 26 | 33 | 19 | 28 | 33 | 33 | 29 | 30 | 29 | 29 |
| Eithaf pryderus | 44 | 43 | 45 | 36 | 40 | 49 | 50 | 40 | 48 | 44 | 42 |
| CYFANSWM PRYDERUS | 73 | 69 | 78 | 55 | 68 | 82 | 83 | 69 | 78 | 73 | 71 |
| Ddim yn bryderus iawn | 16 | 20 | 13 | 25 | 17 | 14 | 14 | 21 | 16 | 15 | 15 |
| Ddim yn bryderus o gwbl | 4 | 5 | 2 | 7 | 5 | 2 | 1 | 3 | 2 | 4 | 5 |
| CYFANSWM DDIM YN BRYDERUS | 20 | 25 | 15 | 32 | 22 | 16 | 15 | 24 | 18 | 19 | 20 |
| Ddim yn gwybod | 7 | 7 | 7 | 13 | 10 | 2 | 2 | 7 | 4 | 7 | 9 |
| **Pa mor hyderus ydych chi, os o gwbl, eich bod yn deall sut y mae eithafiaeth yn edrych yn y Deyrnas Unedig?** | | | | | | | | | | | |
| Hyderus iawn | 11 | 14 | 9 | 6 | 12 | 15 | 9 | 12 | 12 | 11 | 10 |
| Eithaf hyderus | 46 | 48 | 44 | 50 | 44 | 46 | 46 | 47 | 48 | 47 | 41 |
| CYFANSWM HYDERUS | 57 | 62 | 53 | 56 | 56 | 61 | 55 | 59 | 60 | 58 | 51 |
| Ddim yn hyderus iawn | 25 | 21 | 29 | 19 | 22 | 27 | 32 | 24 | 26 | 21 | 28 |
| Ddim yn hyderus o gwbl | 6 | 5 | 7 | 5 | 6 | 7 | 7 | 5 | 4 | 7 | 9 |
| CYFANSWM DDIM YN HYDERUS | 31 | 26 | 36 | 24 | 28 | 34 | 39 | 29 | 30 | 28 | 37 |
| Ddim yn gwybod | 11 | 11 | 11 | 20 | 15 | 5 | 7 | 12 | 10 | 13 | 12 |
| **Faint yn fwy neu yn llai ydych chi'n ei feddwl sydd angen ei wneud i daclo eithafiaeth yn y Deyrnas Unedig?** | | | | | | | | | | | |
| Llawer mwy | 49 | 49 | 49 | 35 | 43 | 56 | 59 | 43 | 47 | 51 | 53 |
| Ychydig mwy | 29 | 28 | 29 | 32 | 27 | 31 | 29 | 31 | 35 | 25 | 23 |
| CYFANSWM MWY | 78 | 77 | 78 | 67 | 70 | 87 | 88 | 74 | 82 | 76 | 76 |
| Dim mwy na llai | 10 | 11 | 10 | 15 | 13 | 8 | 7 | 16 | 8 | 10 | 10 |
| Ychydig llai | 1 | 1 | 0 | 2 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Llawer llai | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| CYFANSWM LLAI | 2 | 2 | 1 | 3 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 |
| Ddim yn gwybod | 10 | 9 | 11 | 16 | 15 | 4 | 6 | 10 | 9 | 12 | 11 |

| | | Rhyw | | Oedran | | | | Rhanbarth | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyfan-swm** | **Gwryw** | **Benyw** | **18-24** | **25-49** | **50-64** | **65+** | **Llundain** | **Gwedd-ill De Lloegr** | **Canolbarth Lloegr / Cymru** | **Gogledd Lloegr** |
| Sampl Wedi'i Bwysoli | 1495 | 725 | 770 | 166 | 627 | 354 | 349 | 219 | 531 | 351 | 395 |
| Sampl Heb ei Bwysoli | 1486 | 650 | 836 | 140 | 621 | 376 | 349 | 169 | 560 | 353 | 404 |
| | **%** | **%** | **%** | **%** | **%** | **%** | **%** | **%** | **%** | **%** | **%** |
| **Pa rai o'r geiriau canlynol ydych chi yn eu cysylltu'n fwyaf cryf ag eithafiaeth? Dewiswch hyd at dri dewis.** | | | | | | | | | | | |
| Terfysgaeth | **60** | 59 | 60 | 59 | 59 | 63 | 57 | 56 | 61 | 60 | 58 |
| Casineb | **54** | 52 | 56 | 42 | 53 | 57 | 59 | 53 | 55 | 56 | 52 |
| Trais | **44** | 41 | 46 | 49 | 41 | 41 | 48 | 38 | 46 | 44 | 43 |
| Anoddefgarwch | **31** | 34 | 29 | 18 | 25 | 39 | 41 | 33 | 31 | 37 | 26 |
| Hiliaeth | **21** | 23 | 18 | 14 | 19 | 22 | 26 | 19 | 21 | 20 | 22 |
| Propaganda | **18** | 16 | 19 | 15 | 20 | 17 | 15 | 19 | 17 | 16 | 19 |
| Rhaniadau | **14** | 15 | 13 | 16 | 15 | 14 | 10 | 15 | 16 | 14 | 11 |
| Gwahaniaethu | **8** | 9 | 7 | 14 | 6 | 9 | 7 | 8 | 8 | 7 | 9 |
| Homoffobia | **5** | 6 | 4 | 3 | 4 | 6 | 6 | 6 | 5 | 5 | 5 |
| Casineb at wragedd | **4** | 3 | 4 | 3 | 3 | 5 | 4 | 7 | 2 | 5 | 2 |
| Anghyfartaledd | **4** | 3 | 4 | 3 | 3 | 3 | 5 | 6 | 4 | 3 | 2 |
| Dim un o'r uchod | **1** | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 2 |
| Ddim yn gwybod | **7** | 5 | 8 | 13 | 9 | 2 | 4 | 8 | 5 | 6 | 8 |
| **Pa un o'r canlynol, os o gwbl, ydych chi'n ei feddwl y mae eithafiaeth yn gwneud mwyaf o niwed iddo? Dewiswch hyd at dri dewis.** | | | | | | | | | | | |
| Diogelwch cenedlaethol | **44** | 42 | 47 | 35 | 41 | 48 | 51 | 37 | 48 | 46 | 42 |
| Goddefgarwch | **36** | 37 | 34 | 19 | 34 | 40 | 41 | 34 | 36 | 38 | 32 |
| Gwerthoedd Prydeinig | **35** | 39 | 32 | 21 | 28 | 41 | 48 | 29 | 38 | 40 | 31 |
| Rhyddid crefyddol neu o ran cred | **34** | 32 | 36 | 37 | 32 | 35 | 37 | 34 | 38 | 31 | 33 |
| Hawliau dynol | **25** | 26 | 24 | 34 | 24 | 25 | 22 | 30 | 21 | 26 | 26 |
| Democratiaeth | **21** | 26 | 17 | 9 | 14 | 27 | 34 | 26 | 22 | 21 | 17 |
| Amrywiaeth | **14** | 14 | 15 | 18 | 17 | 16 | 6 | 17 | 14 | 14 | 13 |
| Gwerthoedd a rennir | **14** | 15 | 13 | 12 | 16 | 13 | 12 | 15 | 14 | 14 | 12 |
| Cydraddoldeb | **13** | 12 | 14 | 21 | 14 | 10 | 9 | 13 | 13 | 11 | 14 |
| Arall (nodwch os gwelwch yn dda) [Gweler Tab 1] | **1** | 1 | 2 | 2 | 2 | 0 | 1 | 2 | 1 | 1 | 1 |
| Dim un o'r uchod | **2** | 3 | 2 | 2 | 4 | 1 | 0 | 2 | 2 | 2 | 3 |
| Ddim yn gwybod | **10** | 9 | 12 | 19 | 12 | 6 | 7 | 11 | 8 | 10 | 12 |

## Atodiad D: Adolygiad Parhaus o'r Dystiolaeth - Llenyddiaeth Academaidd

Rydym yn cynnal adolygiad parhaus o'r llenyddiaeth sy'n bodoli, gan gynnwys llenyddiaeth academaidd, adroddiadau seiadau syniadau a data llywodraeth, i fod yn sail i'n dull. Gan weithio gyda'r Ganolfan Genedlaethol dros Ymchwil Cymdeithasol rydym wedi dynodi 25 o bapurau academaidd i gychwyn sydd wedi cyfrannu at ein Cylch Gorchwyl. Dynodwyd y rhain trwy ddull academaidd arferol, ac yna fe'u haseswyd am eu perthnasedd, eu dull a'u hansawdd ar gyfer ein dibenion ni.

Ychydig iawn o bapurau oedd yn uniongyrchol berthnasol i'n dibenion ni, gan ganolbwyntio yn aml ar wrth-derfysgaeth yn hytrach nag eithafiaeth. Ychydig o'r papurau oedd yn seiliedig ar ymchwil empirig, roeddent yn aml ar sail trafodaeth neu yn ddamcaniaethol. Nodwyd bod gwahaniaethu ymchwil anecdotaidd oddi wrth ddadansoddiadau yn broblemus yn yr adolygiad cymheiriaid. Roedd y rhan fwyaf o'r ymchwil yn trafod eithafiaeth Islamaidd neu'r Dde Eithaf yn unig. Tanlinellwyd y byddai rhagor o waith am fathau eraill o eithafiaeth yn werth chweil.

Cyfyngedig yw'r dystiolaeth am raddfa eithafiaeth. Mae astudiaethau yn trafod dulliau i ddeall amlygrwydd syniadau ac ymddygiad eithafol yn well, fel mesur y ffactorau risg i'r rhai y gellid eu tynnu i mewn i eithafiaeth, astudiaethau achos, cyfweliadau gydag amrywiaeth o unigolion perthnasol, neu olrhain aelodaeth o grwpiau'r Dde Eithaf ar-lein, ond prin yw'r rhain ac maent yn cael eu beirniadu am beidio â bod yn gynrychioliadol.

Cyfyngedig hefyd yw'r sail o dystiolaeth am niweidiau eithafiaeth. Y niweidiau y cyfeiriwyd atynt amlaf oedd rhai o ran cydlyniad cymunedol, allgauedd cymdeithasol ac unigrwydd, yr awgrymwyd hefyd eu bod yn elfennau sy'n gyrru eithafiaeth.

Gwelir gweithio mewn partneriaeth rhwng y llywodraeth a sefydliadau cymdeithas sifil fel y math mwyaf positif a gwerth chweil o ymyrraeth. Roedd rhywfaint o lenyddiaeth, damcaniaethol yn bennaf, yn awgrymu bod polisïau gwrth-derfysgaeth yn cael eu hamgyffred fel rhai sy'n elyniaethus i Fwslimiaid Prydain. Awgrymwyd bod addysg am werthoedd a rennir a dinasyddiaeth yn ffordd arbennig o effeithiol o gynyddu'r gallu i wrthsefyll eithafiaeth.

### Cyfeiriadau


Abbas, T. ac Awan, I. (2015). Limits of UK counterterrorism policy and its implications for Islamophobia and Far Right extremism. International Journal for Crime, Justice and Social Democracy, 4(3):16-29.

Alam, Y. a Husband, C. (2013). Islamophobia, community cohesion and counter-terrorism policies in Britain. Patterns of Prejudice, 47(3): 235-252.

Aldrich, D.P. (2014). First steps towards hearts and minds? USAID's countering violent extremism policies in Africa. Terrorism and Political Violence, 26(3): 523-546.

Alessio, D. (2015). The dragon is not always red: The extreme right and ultra-nationalism in Wales. National Identities, 17(3): 289-309.

Allen, K. (2016). Achieving interfaith maturity through university interfaith programmes in the United Kingdom. Cogent Education, 3(1): 1261578.

Aly, A., Taylor, E. a Karnovsky, S. (2014). Moral disengagement and building resilience to violent extremism: An education intervention. Studies in Conflict & Terrorism, 37(4): 369-385.

Blackwood, L., Hopkins, N. a Reicher, S. (2016). From theorizing radicalization to surveillance practices: Muslims in the cross hairs of scrutiny. Political Psychology, 37(5): 597-612.

Dunn, K.M., Atie, R., Kennedy, M., Ali, J.A., O'Reilly, J. a Rogerson, L. (2016). Can you use community policing for counter terrorism? Evidence from NSW, Australia. Police Practice and Research, 17(3): 196-211.

Etzioni, A. (2016). Talking to the Muslim world: How, and with whom? International Affairs, 92(6): 1361-1379.

Ghosh, R., Chan, W.A., Manuel, A. a Dilimulati, M. (2017). Can education counter violent religious extremism? Canadian Foreign Policy Journal, 23(2): 117-133.

Gill, P., Corner, E., Conway, M., Thornton, A., Bloom, M. a Horgan, J. (2017). Terrorist use of the Internet by the numbers: Quantifying behaviors, patterns, and processes. Criminology & Public Policy, 16(1): 99-117.

Giscard d'Estaing, S. (2017). Engaging women in countering violent extremism: Avoiding instrumentalisation and furthering agency. Gender & Development, 25(1): 103-118.

Goodwin, M.J. a Harris, G. (2013). Rallying intolerance in the valleys: Explaining support for the extreme right in Wales. British Politics, 8(4): 433-456.

Innes, M., Roberts, C. a Lowe, T. (2017). A disruptive influence? "Prevent-ing" problems and countering violent extremism Policy in Practice. Law & Society Review, 51(2): 252-281.

Knight, S., Woodward, K. a Lancaster, G.L. (2017). Violent versus nonviolent actors: An empirical study of different types of extremism. Journal of Threat Assessment and Management, 4(4), p.230-248.

Macklin, G. a Busher, J. (2015). The missing spirals of violence: four waves of movement–countermovement contest in post-war Britain. Behavioral sciences of terrorism and political aggression, 7(1): 53-68.

Neumann, P.R. (2013). Options and strategies for countering online radicalization in the United States. Studies in Conflict & Terrorism, 36(6): 431-459.

Ragazzi, F. (2016). Suspect community or suspect category? The impact of counter-terrorism as 'policed multiculturalism'. Journal of Ethnic and Migration Studies, 42(5): 724-741.

Saeed, T. a Johnson, D. (2016). Intelligence, global terrorism and higher education: Neutralising threats or alienating allies? British Journal of Educational Studies, 64(1): 37-51.

Scrivens, R. a Perry, B. (2017). Resisting the right: Countering right-wing extremism in Canada. Canadian Journal of Criminology and Criminal Justice, 59(4): 534-558.

Sklad, M. a Park, E. (2017). Examining the potential role of education in the prevention of radicalization from the psychological perspective. Peace and conflict: journal of peace psychology, 23(4): 432-437.

Spalek, B. (2014). Community engagement for counterterrorism in Britain: An exploration of the role of "connectors" in countering Takfiri jihadist terrorism. Studies in Conflict & Terrorism, 37(10): 825-841.

Spalek, B. a Weeks, D. (2017). The role of communities in counterterrorism: Analyzing policy and exploring psychotherapeutic approaches within community settings. Studies in Conflict & Terrorism, 40(12): 991-1003.

Szmania, S. a Fincher, P. (2017). Countering violent extremism online and offline. Criminology & Public Policy, 16(1): 119-125.

Young, H.F., Rooze, M. a Holsappel, J. (2015). Translating conceptualizations into practical suggestions: What the literature on radicalization can offer to practitioners. Peace and Conflict: Journal of Peace Psychology, 21(2): 212-225.